

# Maniffesto ar gyfer ‘Quiet Disruptors’

... Am ei bod yn amser newid y drafodaeth, am byth.

Ydych chi wedi sylweddoli? Rydym mewn cyfnod o newid oes.

Symud o’r oes fodern, ddiwydiannol gyda’i atebion rhagweledol a llinol i fyd sy’n fwy cymhleth, rhyng-gysylltiedig a chyfnewidiol. I fyd lle mae ein gweithredoedd yn cael effaith ar eraill ac ar bwy y medrant fod a byd lle mae ein gweithredoedd yn effeithio ar ein hamgylchedd yn ei gyfanrwydd heb i ni wir amgyffred hynny’n iawn.

Mae angen lleisiau gwahanol – rhai sydd â phethau newydd i ddweud; rhai sydd ddim yn teimlo’r angen i weiddi.

Nid yn unig uwch-arwyr gyda’u ystumiau hyderus. Na chwaith yr uchel eu cloch, yn dilyn diwylliant fel map, sydd ag atebion chwimwth yn cynnig plastr deniadol ond sy’n methu gweld beth sydd ar ddod na hyd yn oed pam i ni’n gwneud pethau o’r cychwyn.

Ond mae angen y lleisiau sydd am greu newid yn greadigol ac ystyrllon. Y rheini sydd yn gwyllo o’r ymylon ac yn ystyrio’n feddylgar wrth grefftio eu hymatebion; y rheini sydd am wneud gwahaniaeth mewn ffordd wahanol. Nid yn unig ar gyfer heddiw.

Achos nid yw mwy o’r un hen beth yn mynd i wneud y tro.

Felly, nawr yw’r amser i newid y drafodaeth drwy ymgorffori’r newid yr hoffwn ei weld. Mae’n amser arddel ein lleisiau, canfod y lleill sydd am gyd-gerdded y daith a darganfod y dewrder i siarad yn dyner ac addfwyn am y pethau pwysig.

Pobl yn unig all greu newid. Bydd y newid yn ymddangos drwy’r rhai sy’n meddu ar y dewrder i fod yn wahanol:

- sydd yn meddwl cyn siarad;
- sydd yn gofyn cwestiynau efallai byddai’n well gennym beidio â’u gwynebu;
- sydd yn awgrymu datrysiadau annisgwyl;
- sydd yn gweld mwy o’r ymylon nag o’r canol, ac yn gwneud cysylltiadau a allai ein syfrdanu;
- sydd â’r angerdd i wneud gwahaniaeth, ond sydd am wneud hynny mewn ffyrdd gwahanol - gyda gras;
- sydd yn creu eu hegri o fyfyrion tawel, syniadau hyfryd a thrwy ystyried y goblygiadau hirdymor;
- sydd yn arddel caredigrwydd, haelioni a dewrder ystyfnig wrth ganlyn ffordd wahanol o weld, bod a gwneud gan droi ein byd ni wyneb i waered – er lles pawb.

Mae’n hen bryd am newid. Mae’n hen bryd i’r ‘tarfwyr tawel’- arddel eu llais a siarad yn dyner ac addfwyn am y pethau pwysig.

*With thanks to Meri Davies and Ben and Naomi Evans for the translation.*